# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN

# 2024 / 2025

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanfrothen sy'n gosod cofnod o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/2025.

Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae lle i 8 o gynghorwyr ar y Cyngor, gyda 3 sedd yn wag ar hyn o bryd, er gwaethaf ymdrechion i'w llenwi.  Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i ymuno a Cyngor Cymuned Llanfrothen, gofynnir iddyn nhw gysylltu â'r Clerc.

Mae'r Cynghorydd Sir dros Ward Glaslyn, y Cynghorydd June Jones hefyd yn mynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir fel arfer bob mis Mai. Y Cynghorydd Nia Povey oedd Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2024/2025, a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Elin Jones.

**Gwaith y Cyngor**

Dyma grynodeb o'r math o waith cyffredinol y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

- Ceisiadau cynllunio - bydd y cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau cyn gwneud penderfyniad ar un ai gefnogi'r cais, dim gwrthwynebiad, neu wrthod.
- Gwaith ar y ffyrdd yn y gymuned – bydd yr Adran Priffyrdd yn anfon manylion am unrhyw waith ffyrdd a/neu ffyrdd yn cau.
- Derbynnir gwybodaeth am gynlluniau, deddfwriaeth newydd, ymgynghoriadau gan fudiadau megis Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru, a bydd cyfle i'r cyngor cymuned leisio barn ac ymateb.

- Materion yn y gymuned – bydd y cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am broblemau sydd yn dod i'r amlwg o dro i dro.
- Mynwent Tan Lan – Y Cyngor sydd yn gyfrifol am Fynwent Tan Lan, am dorri'r gwair yno a'i chadw'n daclus
- Y Ganolfan, Llanfrothen - Mae gan y Cyngor les ar Y Ganolfan, Llanfrothen, gan Gyngor Gwynedd, ac mae yna le i grwpiau cymunedol gyfarfod a chynnal gweithgareddau yno

**Prif faterion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn 2023/24**

**13 Garreg Frech**

Bu llythyru a chysylltu mynych efo Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd a Mabon ap Gwynfor AS Dwyfor Meirionnydd.

Unwaith eto, rhoddwyd pwysau ar Gyngor Gwynedd i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth Eiddo Gwag er mwyn dod â 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Nododd Cyngor Gwynedd fod Grŵp Gweithredol wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael ag eiddo gwag problemus yng Ngwynedd. Yn ogystal, fe ddywedwyd fod Swyddog Tai Gwag ychwanegol i'w benodi, (fyddai'n canolbwyntio ar faterion gorfodaeth megis gwerthiant gorfodol ac yn y blaen), a hyn fel rhan allweddol o brotocol cydweithio trawsadrannol, gyda'r bwriad o ddod ac eiddo gwag problemus yn ôl i ddefnydd mewn ffordd adweithiol ac amserol.

Ychwanegodd Cyngor Gwynedd eu bod yn gobeithio mynd i'r afael ag 13 Garreg Frech a sawl eiddo gwag problemus arall yn y Sir yn ystod y flwyddyn i ddod.

Fodd bynnag, rhoddodd Cyngor Gwynedd wybod na fyddent am ddefnyddio'r Ddeddfwriaeth Eiddo Gwag er mwyn dod ag 13 Garreg Frech yn ôl i ddefnydd.

Mae Cyngor Cymuned Llanfrothen wedi rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd eu bod yn siomedig iawn o glywed hyn, yn enwedig o gofio cyd-destun yr addewidion a roddwyd, ac yn ystyried pa opsiynau eraill i'w cymryd.

## Llwybr Cyhoeddus Garreg Frech

Darparwyd tystiolaeth i Gyngor Gwynedd am y defnydd hanesyddol o'r llwybr cyhoeddus yng Ngharreg Frech.  Gobeithir y bydd Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen i gofrestru'r llwybr.

## Tafarn Y Ring, Llanfrothen

Gadawodd tenant presennol tafarn Y Ring, ac fe gefnogodd y cyngor cymuned sefydlu grŵp cymunedol oedd a'r bwriad o brynu'r les.

Bu'r grŵp cymunedol yn llwyddiannus yn prynu'r les ac maent yn awr wrthi'n chwilio am denant er mwyn rhedeg y dafarn.

## Y Ganolfan Llanfrothen

Defnyddiwyd Y Ganolfan ym mis Mai a mis Gorffennaf ar gyfer yr etholiad cyffredinol ac etholiad Comisiynydd Heddlu.

## Enwau llefydd lleol

Cafwyd trafodaeth efo aelod o'r cyhoedd am enwau llefydd lleol.

Er enghraifft, mae Llanfrothen yn cael ei ddefnyddio'n aml yn lle Garreg. Cytunwyd ei bod hi'n bwysig gwneud pob ymdrech i sicrhau defnyddio Garreg ar gyfer y pentref, a Llanfrothen ar gyfer y gymuned ehangach.

## Mesurau Arafu Traffig yn Llanfrothen

Gosododd Cyngor Gwynedd linellau gwyn ar hyd ochr y ffordd yn Garreg er mwyn ceisio arafu cyflymder y traffig.

Serch hynny, parheir i dderbyn cwynion am oryrru drwy Garreg ac yn y plwyf yn gyffredinol.

Ar gais y cyngor cymuned, mynychodd swyddog Heddlu o Borthmadog Garreg ar amrywiol adegau yn ystod y flwyddyn. Mae'n debyg fod presenoldeb y car Heddlu yn arafu traffig, ond ni lwyddwyd i ddal neb yn goryrru.

.

Gofynnwyd i GanBwyll fynychu Garreg fel rhan o ymdrech i leihau goryrru. Yn anffodus, mae natur y ffordd drwy bentref Garreg yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau presenoldeb gan GanBwyll.

Mae trafodaethau yn parhau efo Cyngor Gwynedd er mwyn gweld pa fesurau fyddai yn briodol er mwyn arafu traffig

**Ffordd o Lodge Brondanw am Blas Brondanw**

Cytunodd Cyngor Gwynedd i osod arwydd yn dynodi'r lon am Groesor fel un anaddas ar gyfer cerbydau mawr.

Bydd arwydd 20mya hefyd yn cael ei osod ger y Lodge, fel bod y rhai yn ymuno â'r A4085 yn ymwybodol fod y cyflymder ar yr A4085 yn 20 m.y.a..

**Cyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw**

Mae cynrychiolwyr o'r cyngor cymuned yn mynychu cyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw yn flynyddol, gan mai Ymddiriedolaeth Brondanw sydd berchen Tafarn y Ring a nifer o dai ac asedau eraill yn y gymuned.

Mae elw yn cael ei wneud o Gynllun Hydro Croesor, a gwnaethpwyd taliad o £1392.30. Cafwyd addewid gan yr Ymddiriedolwyr i wneud cyfraniad ariannol i'r cyngor cymuned yn y dyfodol.

Mae Cyngor Cymuned Llanfrothen yn falch o gefnogaeth Ymddireidolaeth Brondanw i'r gymuned yn gyffredinol.

**Llwybr cerdded a beicio Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Lluniwyd cynllun ac achos dichonoldeb ar greu llwybr cerdded o Lanfrothen rai blynyddoedd ôl.

Cafwyd cost ddiwygiedig ar gyfer y llwybr yn nhermau prisiau heddiw, a bydd yn costio rhai miliynau.

Penderfynwyd ail edrych ar y cynlluniau, ac fe dderbyniwyd adroddiad gan Beiriannydd Sifil yn edrych ar opsiynau eraill posibl er mwyn gwneud llwybr rhwng Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth yn fwy ymarferol ac atyniadol ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

**Cysgodfan Fws**

Dyluniwyd cynllun ar gyfer cysgodfan fws dros y ffordd i rif 1 a 2 Rhedai Garreg.

Ar hyn o bryd does dim cysgodfan yn Garreg, ac mae disgyblion sy'n disgwyl am y bws i fynd i'r ysgol yn gorfod aros heb lawer o gysgod.

Cafwyd caniatâd cynllunio gan Barc Cenedlaethol Eryri, a'r bwriad yw gwneud cais grant i Gronfa Gymunedol Eryri yn ystod haf 2025.

**Diffribliwyr Croesor, Garreg a Rhyd**

Mae'r blwch arian a'r cod QR ym maes parcio Croesor yn parhau i dderbyn taliadau ar gyfer y 3 diffribliwr a osodwyd yn lleol.

**Rhoddion Ariannol**

Yn ystod y flwyddyn 2024/25, gwnaethpwyd y rhoddion canlynol:

Ysgol Y Garreg, Llanfrothen £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50
Papur Bro'r Wylan £50

**Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yng nghyfarfod 30 Mehefin 2025 o Gyngor Cymuned Llanfrothen**